WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mawrth 2010

Awduron: Alan Morris a Rob Powell

Cyf: 205A2009

# Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mawrth 2011

# **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

## Cynnwys


**Gwaith archwilio perfformiad yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Yr Asesiad o Welliant 5

Archwilio Cynllun Gwella a gwybodaeth gysylltiedig yr Awdurdod 5

Astudiaethau llywodraeth leol 6

**Gwaith arall a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol i lywio ei gwaith archwilio perfformiad yn yr Awdurdod**

Gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig 6

Gwaith rheoleiddwyr perthnasol 7

Astudiaethau eraill yr Archwilydd Cyffredinol yn y sector cyhoeddus 7

**Atodiadau**

Rolau a chyfrifoldebau 8

Tîm Archwilio Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru 9

Ffioedd 10

Rhaglen Wella'r Awdurdod Lleol 11

Rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol i'w chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol 12

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiad o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

## Gwaith archwilio perfformiad yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

1. Mae'r adran hon yn nodi'r gwaith i'w gyflawni gan ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), swyddogaethau sy'n weddill Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhannau 2 a 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
2. Yn draddodiadol, cytunwyd ar raglen gwaith archwilio perfformiad blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd bob blwyddyn ac roedd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Hydref y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno gofynion y Mesur yn raddol, gyda rhai elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn dal i fodoli. Mae hyn yn golygu y bydd trefniadau pontio ar waith hyd at fis Mawrth 2011. Felly mae'r rhaglen hon yn cwmpasu cyfnod o 17 mis. O fis Ebrill 2011 ymlaen, bydd gwaith archwilio perfformiad yn gyson â'r flwyddyn ariannol. Bydd cynllun a ffi ar wahân ar gyfer gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig, a grynhoir yn yr adran nesaf.
3. Nodir ystod y gwaith archwilio perfformiad y bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r rheoleiddwyr perthnasol yn ei gyflawni mewn Cynllun Gwaith ac Amserlen. Bydd hyn yn adlewyrchu trefniadau cynllunio gwelliant yr Awdurdod, bydd yn gyson â'i amcanion gwella, a chaiff ei deilwra'n unol â hynny. Bydd yn rhoi gwybodaeth fwy manwl am natur a chwmpas gweithgareddau asesu gwelliant. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn cyswllt agos â'r Awdurdod a'r rheoleiddwyr perthnasol er mwyn datblygu'r Cynllun Gwaith ac Amserlen. Caiff ei adolygu bob chwarter o leiaf.
4. Mae Atodiadau 1 a 2 yn nodi rolau a chyfrifoldebau staff Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr Awdurdod, ynghyd â threfniadau cyswllt.
5. Mae Atodiad 3 yn nodi'r ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol yn yr Awdurdod.
6. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi mater sy'n ddigon pwysig i ystyried cynnal arolygiad arbennig fel ymateb priodol iddo, bydd yn codi ffi ychwanegol am gynnal arolygiad o'r fath.

## Yr Asesiad o Welliant

7. Mae'r Mesur Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella er mwyn pennu a yw'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur.

8. Bydd yr Asesiad o Welliant yn cael ei nodi mewn Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Tachwedd bob blwyddyn. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol: A yw'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus? Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, bydd yr Asesiad o Welliant yn cynnwys:

- Asesiad Corfforaethol - adolygiad o drefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad - adolygiad ôl-weithredol o berfformiad, gan olrhain gwelliant dros amser.

9. Mae Atodiad 4 yn nodi meysydd allweddol y rhaglen y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn eu hystyried wrth lunio ei hasesiadau o welliant a chyflwyno adroddiadau arnynt.

## Archwilio Cynllun Gwella a gwybodaeth gysylltiedig yr Awdurdod

10. Mae'r Mesur Llywodraeth Leol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o p'un a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant a chyhoeddi gwybodaeth am welliant, a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

11. Daw'r ddyletswydd i awdurdodau gwella gyhoeddi Cynllun Gwella mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol i rym ym mis Ebrill 2010. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o'r cynllun hwn o dan adran 17 cyn mis Ebrill 2011. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu Cynllun Gwella 2010 yr Awdurdod yn hytrach na'i archwilio'n ffurfiol. Bydd yr adolygiad hwn yn llywio'r Asesiad Corfforaethol. O fis Ebrill 2011 ymlaen, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilio Cynllun Gwella'r Awdurdod yn fuan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

12. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ar gynnig i gyfuno prosesau ymgynghori a chyhoeddi Cynlluniau Lleihau Risg yr Awdurdodau Tân ac Achub â gofynion i ymgynghori a chyhoeddi cynlluniau gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Er mwyn galluogi hyn, bydd angen cyflwyno Gorchymyn o dan Adran 15(7)(b) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn newid dyddiad cyhoeddi cynlluniau gwella'r Awdurdodau Tân ac Achub i cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl 30 Medi yn y flwyddyn cyn y mae'r cynllun yn ymwneud â hi.

13. Daw'r ddyletswydd y mae'r Mesur yn ei rhoi ar awdurdodau i gyhoeddi gwybodaeth am welliant erbyn diwedd mis Hydref i rym yn 2011. Yn 2010, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilio gwybodaeth am berfformiad fel rhan o'i hasesiad ôl-weithredol o berfformiad yr Awdurdod.

14. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod i gyhoeddi Cynllun Gwella blynyddol erbyn diwedd mis Hydref o hyd. Caiff y ddyletswydd hon ei diddymu yn 2012 ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub.

15. Caiff y wybodaeth am welliant y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei chyhoeddi cyn 31 Hydref 2010 ei harchwilio gan yr Archwilydd Penodedig yn unol â deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, sef adran 7 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Bydd yr archwiliad hwn yn helpu i lywio'r Asesiad o Berfformiad, y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiad arno, ynghyd â chrynodeb o'r Asesiad Corfforaethol, yn ei Hadroddiad Gwella Blynyddol ym mis Tachwedd 2010.

### Astudiaethau llywodraeth leol

16. Mae'n ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal astudiaethau o awdurdodau lleol o dan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Cyn cynnal astudiaethau o'r fath, mae'n rhaid iddi ymgynghori â chymdeithasau awdurdodau lleol a chymdeithasau cyflogeion sy'n gysylltiedig yn ei barn hi. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori ar ei chynigion astudio fel y bo'n briodol ar ddechrau 2010.

## Gwaith arall a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol i lywio ei gwaith archwilio perfformiad yn yr Awdurdod

17. Mae'r rhan hon o'r Rhaglen Reoleiddio yn crynhoi, yn fras, y gwaith arall y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ddefnyddio i ddod i gasgliadau o ran yr Awdurdod. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig;
- gwaith rheoleiddwyr perthnasol, yn enwedig y Cynghorydd Tân ac Achub â statws Arolygydd Ei Mawrhydi;
- astudiaethau eraill yr Archwilydd Cyffredinol yn y sector cyhoeddus.

### Gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig

18. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio a chyflwyno adroddiadau ar gyfrifon awdurdodau lleol. Mae adroddiadau archwilio yn cynnwys barn ar y canlynol:

- a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r corff, neu'n eu cyflwyno'n deg;
- a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu cymwys;
- rheoleidd-dra'r trafodion, mewn cyrff lle bo hyn yn ofynnol.

19. Bydd archwilwyr yn astudio datganiad llywodraethu neu ddatganiad am reolaeth fewnol yr Awdurdod ac yn nodi unrhyw achos lle nad yw'n unol â'r gofynion perthnasol neu lle y gall fod yn gamarweiniol neu'n anghyson ag unrhyw wybodaeth arall y maent yn ymwybodol ohoni.

20. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilwyr Penodedig fodloni eu hunain bod corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Bydd archwilwyr yn defnyddio meini prawf a nodir gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn dibynnu ar yr asesiad o welliant a gwaith arall a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol neu reoleiddwyr perthnasol.

## Gwaith rheoleiddwyr perthnasol

21. Noda Arddangosyn 3 y gweithgarwch rheoleiddio arall sy'n hysbys ar hyn o bryd. Yn ei hanfod mae'n ymwneud â gwaith Tîm Asesu Cymheiriaid Llywodraeth y Cynulliad. Caiff y gwaith hwn a gwaith arall a all godi ei gynnwys pan ddiweddarir y Cynllun Gwaith ac Amserlen.

**Arddangosyn 3: Gweithgarwch rheoleiddio arall sydd wedi'i gynllunio**

| | |
|---|---|
| Tîm Asesu Cymheiriaid | Asesiad sicrwydd gweithredol |

## Astudiaethau eraill yr Archwilydd Cyffredinol yn y sector cyhoeddus

22. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni gwaith arall a fydd weithiau'n llywio ei gwaith yn ymwneud ag awdurdodau.

23. Mae ganddi raglen waith sylweddol sy'n ymwneud â Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cysylltiedig, a chyrff y GIG. Fel arfer cyflwynir adroddiadau ar waith o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried gan ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Gan fod llawer o'r astudiaethau hyn yn gorgyffwrdd â gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn aml byddant yn berthnasol i'w gwaith mewn llywodraeth leol. Mae Atodiad 5 yn nodi rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol i'w chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

24. Fel archwilydd cyrff y GIG yng Nghymru, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol raglen archwilio ariannol a pherfformiad yn ymwneud â chyrff iechyd lleol unigol hefyd. Wrth i gydweithio ddod yn fwy cyffredin, bydd y gwaith hwn yn dod yn fwyfwy perthnasol i'n gwaith Asesu Gwelliant.

25. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cyflawni ymarferion paru data sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Y brif enghraifft o hyn yw'r Fenter Twyll Genedlaethol a wneir ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio, Audit Scotland a Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

26. O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gall yr Awdurdod gomisiynu gwaith gan yr Archwilydd Cyffredinol. Dylai'r Awdurdod drafod hyn yn gyntaf gyda Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru neu, yn achos gwaith archwilio ariannol, gyda'r Archwilydd Penodedig.

# Atodiad 1

## Rolau a chyfrifoldebau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Nodir prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Deddf Llywodraeth Cymru 1999, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

### Partner Ymgysylltu Perfformiad

Mae'r Partner Ymgysylltu Perfformiad yn atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am oruchwylio'r holl waith archwilio perfformiad yn yr Awdurdod.

### Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant

Y Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant yw'r prif gyswllt ar gyfer gwaith asesu gwelliant ar lefel uwch swyddog a gwleidyddol mewn cyrff llywodraeth leol. Mae'r Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant yn cynrychioli'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n cyflwyno adroddiadau ar yr asesiad o welliant i'r Awdurdod.

### Cydlynydd Asesu Gwelliant

Mae'r Cydlynydd Asesu Gwelliant yn rheoli ac yn cydlynu'r mewnbynnau i asesiad o welliant pob awdurdod.

### Archwilwyr Penodedig

Mae'n rhaid i'r Archwilydd a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan Ddeddfau 1999 a 2004. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Cod sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau.

### Cynghorydd Tân ac Achub â statws Arolygydd Ei Mawrhydi

Mae'r rôl yn cynnwys rhoi cyngor ar sicrwydd gweithredol, canllawiau a materion polisi technegol, yn ogystal â pherfformiad, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd y rôl hefyd yn rhoi cymorth a chyngor gwerthfawr i Weinidogion Cymru a swyddogion yn ystod argyfyngau mawr.

# Atodiad 2

## Tîm Archwilio Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru

| Enw | Rôl | Ffôn | E-bost |
|---|---|---|---|
| Alan Morris | Partner Ymgysylltu | 02920 320553/ 07818 427472 | alan.morris@wao.gov.uk |
| Rob Powell | Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant | 02920 320603/ 07980 637686 | rob.powell@wao.gov.uk |
| Lisa Williams | Cydgysylltydd Asesu Gwelliant | 02920 320671/ 07970 246975 | lisa.williams@wao.gov.uk |


## Atodiad 3

# Ffioedd

Y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio perfformiad rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mawrth 2011 yw £40,991 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mawrth 2011.

Atodiad 4

## Rhaglen Wella'r Awdurdod Lleol



## Atodiad 5

# Rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol i'w chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol

| |
|---|
| Rheoli adeiladau sector cyhoeddus. |
| Trafnidiaeth - cyflawni prosiectau mawr. |
| Contract Merlin - gwaith dilynol. |
| Cynllunio at argyfwng - argyfyngau sifil posibl. |
| Gwasanaethau iechyd meddwl oedolion - gwaith dilynol. |
| Plismona - gwell gwasanaeth am lai o arian (astudiaeth yng Nghymru a Lloegr mewn partneriaeth â'r Comisiwn Archwilio). |
| Hysbysu gofal iechyd. |
| Gwireddu buddiannau yn sgîl gweithredu'r contract meddygon ymgynghorol. |
| 2007-2013 Arian Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. |
| Addysg plant sy'n derbyn gofal. |
| Cyfranogiad cyhoeddus mewn ailgylchu a chompostio. |
| Arlwyo mewn ysbytai. |
| Menter Twyll Genedlaethol. |
| Safon Ansawdd Tai Cymru. |
| Maeth mewn ysgolion. |
| Hapwiriadau o restrau aros y GIG - gwaith dilynol. |
| Moderneiddio tâl y GIG. |
| Ad-drefnu'r GIG. |
| Gofal iechyd parhaus. |
| Arloesedd ac effeithlonrwydd. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk